Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Brynsiriol**

**259/261 Heol Castell Nedd**
**Llansawel**
**Castell-nedd**
**SA11 2SL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_Donot_Delete

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Brynsiriol

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Bravemore Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Mai 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Cartref gofal preswyl yn Llansaswel yw Brynsiriol sy'n darparu cymorth i oedolion hŷn sydd ag anghenion cymorth gofal personol. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ar brif ffordd ond mae ganddo gyfleusterau parcio a gardd yn y cefn. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar waith sy'n adlewyrchu eu hanghenion yn dda a chânt eu hadolygu fel mater o drefn er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl. Mae'r gweithwyr gofal sy'n cefnogi'r bobl yn cael eu recriwtio'n briodol ac yn cael cymorth a hyfforddiant i gyflawni eu rolau. Mae llawer o weithwyr gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers peth amser ac yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda.

Mae'r amgylchedd yng nghartref Brynsiriol yn gartrefol ac mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli â'u heiddo eu hunain. Mae angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn sicrhau bod y risgiau i'r bobl yn cael eu lleihau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn y gwasanaeth.

Mae rheolwr a dirprwy ymroddedig, sy'n cael eu parchu, wedi'u cuflogi, sydd i'w gweld yn y gwasanaeth bob dydd. Mae cydberthynas dda rhwng y bobl a'r staff gofal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn y gwasanaeth yn rheolaidd yn ei oruchwylio. Maent yn ymgysylltu â'r bobl a'r staff ar bob ymweliad i ddeall eu profiadau yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais a chânt eu trin â pharch ac urddas. Mae'r bobl yn cael dewis ym mhopeth y maent yn ei wneud yn y gwasanaeth, o'r amser y maent yn codi, yr hyn y maent am ei wisgo, yn ei fwyta ac yfed a lle maent am dreulio eu hamser. Mae'r cynlluniau personol wedi eu hysgrifennu yn y person cyntaf ac yn adlewyrchu anghenion unigol cyfredol y bobl yn dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl a'r staff pan fydd yn ymweld â'r cartref i gael adborth am y gwasanaeth ac i lywio gwelliannau.

Caiff llesiant emosiynol, iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl eu hybu. Mae meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n dda yn y gwasanaeth; fodd bynnag, mae gwelliannau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i storio meddyginiaeth. Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff gofal cyson sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n gallu adnabod arwyddion o salwch a gweithredu ar unwaith.  Mae gweithgareddau yn cael eu cynnal yn y gwasanaeth fel mater o drefn.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae'r mynedfeydd a'r allanfeydd yn y gwasanaeth wedi eu cloi â chlo bysellbad. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol ac roedd yr aelodau o staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae asesiadau risg ar waith er mwyn cyfateb â'r cynlluniau personol i helpu gweithwyr gofal i gefnogi'r bobl yn ddiogel. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu fel mater o drefn ac maent ar waith er mwyn cynnal diogelwch y bobl yn y gwasanaeth. Mae trefniadau recriwtio da ar waith i'r gweithwyr gofal, sy'n cael eu cefnogi a'u hyfforddi yn eu rolau.

Caiff y bobl eu helpu i gynnal cydberthnasau. Gwelwyd perthnasau yn ymweld â'r bobl yn ystod yr arolygiad, ac roedd yn amlwg bod gan y bobl gydberthynas dda gydag eraill yn y gwasanaeth yn ogystal â'r staff gofal. Mae'r tîm gofal yn fodlon yn eu rolau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd lle mae'r gwelliannau yn barhaus er mwyn hyrwyddo eu llesiant. Mae'r darparwr yn gwneud cynnydd da er mwyn sicrhau bod y risgiau i'r bobl yn lleihau drwy wella'r gwaith o oruchwylio a chynnal a chadw'r systemau yn y gwasanaeth. - Mae ardaloedd yn y gwasanaeth wedi cael eu hail-addurno ers yr arolygiad diwethaf. Cafwyd gwared ar yr hen ddodrefn ac mae'r darparwr yn cael rhai yn eu lle. Mae angen gwneud rhai gwelliannau o hyd er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau i'r bobl yn cael eu lleihau gymaint ag sy'n rhesymol bosibl.

Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n dda. Mae rheolwr sy'n uchel ei barch wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn cyn cael ei hyrwyddo. Mae archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y ddogfennaeth a'r systemau yn gyfredol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn y gwasanaeth yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl, y staff gofal a'r perthnasau am y gwasanaeth ac yn pennu'r gwelliannau sydd angen eu gwneud i ddarparu ansawdd y gofal.

Caiff adroddiadau rheoliadol eu cwblhau yn ôl yr angen ac maent yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn gwella'r gwasanaeth yn barhaus lle y bo'n bosibl.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi â chynllun personol ysgrifenedig sy'n adlewyrchu eu hanghenion unigol. Gwnaethom edrych ar ddwy ffeil gofal a nodwyd gennym fod y cynlluniau personol yn fanwl yn rhoi cyfarwyddiadau da i'r staff gofal ar y ffordd orau o gefnogi'r bobl. Roedd y meysydd yn y cynlluniau yn cynnwys gofal personol, cyfathrebu, symudedd a mwy. Mae'r cynlluniau personol yn cael eu hysgrifennu yn y person cyntaf a lle y bo'n bosibl caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o bennu'r cynnwys ac adolygu eu cynllun personol. Os na all y bobl wneud hyn eu hunain, caiff y teulu eu cynnwys lle y bo'n bosibl. Caiff yr asesiadau risg eu hadolygu ochr yn ochr â chynlluniau personol ac mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn gweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn gwella'r rhain mewn perthynas â rheoli cwympiadau.

Mae meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n dda yn y gwasanaeth. Ar hyn o bryd caiff meddyginiaeth ei storio mewn cypyrddau dan glo yn ystafell pob person. Mae hyn yn cael ei newid ar hyn o bryd fel bod yr holl feddyginiaeth yn cael ei storio yn y swyddfa o hyn ymlaen. Bydd hyn yn gwneud archwiliadau o feddyginiaeth a'i goruchwylio yn haws. Er gwaethaf hyn gwelsom fod prosesau monitro ar waith er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol, gan gynnwys gwiriadau tymheredd. Mae'r Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a welwyd wedi cael eu cwblhau'n gywir â'r bylchau wedi eu cofnodi'n briodol. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliadau meddyginiaeth bob mis. Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff gofal sydd wedi bod yn ei swydd ers sawl blwyddyn ac sy'n eu hadnabod yn dda. Golyga hyn y gallant sylwi ar arwyddion o salwch ac y gallant ofyn am gymorth yn brydlon.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed ac esgeulustod. Mae gan y bobl sydd â galluedd lleieidig i wneud penderfyniadau ar agweddau ar eu gofal a chymorth a llety Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith ac mae'r rhain yn cale eu nodi i AGC fel sy'n ofynnol. Mae'n hanfodol bod pob aelod o'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae gan y rhai y siaradwyd â nhw ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt am y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae polisi diogelu ar waith sy'n cael ei adolygu fel mater o drefn ac sy'n cynnwys gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Caiff y bobl eu hannog i wneud dewisiadau mewn gweithgareddau bob dydd. Gwelwyd y bobl yn mwynhau bwyd a byrbrydau yn ystod y dydd gyda dewisiadau yn cael eu cynnig iddynt drwy gydol y dydd. Mae gweithiwr gofal sydd hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am drefnu gweithgareddau yn y gwasanaeth ac sy'n gosod thema ar gyfer bob mis gyda gweithgareddau, crefftau a décor yn yr ardaloedd cymunedol yn cael eu newid er mwyn adlewyrchu hyn. Gwnaethom arsylwi'r bobl yn treulio amser gydag eraill ac aeth rhai o'r bobl i ardal fwy tawel o'r gwasanaeth i wylio ffilm gyda'i gilydd yn y prynhawn yn ystod yr arolygiad.

## Yr Amgylchedd

Nid yw'r darparwr yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch y bobl bob amser. Gwnaethom ddarllen adroddiad arolygu a gwblhawyd gan nyrs arbenigol rheoli ac atal heintiau, yn dilyn arolygiad diweddar. Roedd yr adroddiad yn dangos methiannau o ran nifer digonol o staff ar gyfer atal a rheoli heintiau, diffyg cyfarpar diogelu personol (PPE – menig, ffedogau ac ati), teclyn codi bath diffygiol, cyfleusterau golchi dwylo annigonol i'r staff, dodrefn wedi'u difrodi, matresi lleddfu pwysedd annigonol ac wedi'u difrodi, eitemau bwyd yn cael eu storio'n wael a phrosesau glanhau annigonol. Gwnaethom gwblhau arolygiad llawn o'r amgylchedd a gwelsom fod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae hyn yn cynnwys newid rhywfaint o'r dodrefn a'r matresi, prynu Cyfarpar Diogelu Personol newydd, trefnu hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gyfer y staff a'r rheolwr, prynu cyfarpar glanhau newydd sydd â chod lliw, gwell archwiliad a phrosesau glanhau a storio. Dywedodd y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol wrthym yr eir i'r afael â'r holl faterion hyn dros yr wythnosau nesaf. Mae adran iechyd amgylcheddol Castell-nedd Porth Talbot wedi cyhoeddi hysbysiad gwella o ran y camau gweithredu annigonol a gymerwyd ar ôl asesiad risg legionella a gafodd ei gwblhau ym mis Mehefin 2023. Mae'r darparwr yn parhau i weithio gydag adran iechyd yr amgylchedd er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn yn llwyr. Rydym wedi gofyn i'r darparwr gymryd mesurau i wella diogelwch a lleihau'r risgiau o bobl agored i niwed yn mynd at risiau y tu mewn. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym y bydd yn gosod bysellbadiau wrth ddrysau ar ben grisiau ac yn edrych am fesur mwy diogel na'r giât bresennol ar waelod y grisiau. Mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae prosesau ar waith er mwyn sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cwblhau a'u dogfennu fel mater o drefn. Mae tystysgrifau diogelwch ar gyfer gosodiadau nwy, trydan, larymau tân, teclynnau codi a slingiau ar waith. Gwelsom ffeil yn cynnwys goruchwyliaeth o waith cynnal a chadw, gwiriadau'r gwelyau a'r matresi, diogelwch tân a thymereddau dŵr gan gynnwys gwell proses ar gyfer legionella. Mae gan y gwasanaeth swyddog cynnal a chadw hunangyflogedig sy'n cwblhau'r gwaith cynnal a chadw yn y gwasanaeth fel mater o drefn. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym y bydd yn trafod trefniant mwy parhaol er mwyn galluogi gwelliannau pellach yn y gwasanaeth. Byddai rhai o ardaloedd y cartref yn elwa o gael gwaith diweddaru ac adnewyddu a bod yn fwy addas i bobl â dementia, gan gynnwys newid carpedi patrymog iawn mewn rhai ardaloedd. Mae'r dirprwy reolwr yn cwblhau archwiliad amgylcheddol sy'n cael ei ddogfennu'n ddyddiol ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac y caiff unrhyw faterion eu hadrodd yn briodol. Gwelsom fod cynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol ac yn unol â rheoliadau rheoli sylweddau peryglus i iechyd (CoSHH). Mae ystafell golchi dillad benodedig, a chedwir eitemau brwnt ar wahân i eitemau glân yn unol â mesurau rheoli heintiau da.

## **Arweinyddiaeth** ba Rheolaeth

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm gofal sy'n cael eu recriwtio'n briodol, sy'n cael eu cefnogi yn eu rolau ac sy'n cael eu hyfforddi'n ddigonol. Gwnaethom edrych ar dair ffeil personél, a nodwyd bod y ddogfennaeth ofynnol ar waith ar gyfer recriwtio diogel. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dogfennau adnabod a geirdaon gan gyflogwyr blaenorol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd , ac roedd y sesiynau goruchwylio hyn i'w gweld yn y ffeil goruchwylio. Mae arfarniadau blynyddol hefyd yn cael eu cynnal, ac mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, y rheoleiddiwr gweithlu. Mae'r gweithwyr gofal y siaradwyd â nhw yn fodlon yn gweithio yn y gwasanaeth ac yn canmol y cymorth y maent yn ei gael. Roedd y sylwadau yn cynnwys "*Managers are awesome, if I have a problem, it is sorted out straightaway*" a *"They always look after us. I get good support here and I can go to the managers at any time.* Gwnaethom edrych ar y matrics hyfforddiant a gwelsom fod y staff gofal yn cwblhau hyfforddiant fel mater o drefn ac mae rhagor o gyfleoedd i gael hyfforddiant pellach wedi cael eu trefnu er mwyn cynnal dysgu'r staff.

Mae systemau da ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy sicrhau ansawdd parhaus. Gwnaethom edrych ar ffeil archwiliadau'r rheolwr a gwelsom fod archwiliadau rheolaidd, misol a chwarterol o'r systemau a'r dogfennau ac ati, yn y gwasanaeth yn cael eu cynnal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adroddiadau chwarterol ac adolygiadau ddwywaith y flwyddyn fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Byddai'r adroddiadau hyn yn cael eu gwella ynmhellach pe baent yn cynnwys mwy o fewnbwn ac adborth gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u teuluoedd. Mae'r adroddiadau a welwyd yn cynnwys gwelliannau a chamau gweithredu sydd angen eu cymryd er mwyn gwella'r gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar Ddatganiad o Ddiben y gwasanaeth sy'n parhau i roi delwedd dda o'r gwasanaeth a'r hyn y mae'n ei ddarparu, a gaiff ei adolygu fel mater o drefn. Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae wedi ymgysylltu â sefydliad allanol i'w gefnogi er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn gyfredol er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn effeithiol.

Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn ariannol yn ddigonol. Mae Brynsiriol yn gartref gofal eithaf bach ac mae rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad diwethaf. Mae matresi a dodrefn newydd wedi cael eu prynu ac mae cynlluniau pellach i wella'r amgylchedd ymhellach er mwyn sicrhau bod diogelwch y bobl yn cael ei gynnal. Roedd y lefelau staffio ar ddiwrnod yr arolygiad yn ymddangos yn ddigonol a dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod digon o staff ar ddyletswydd y rhan fwyaf o'r amser. Fodd bynnag, gall hyn amrywio yn dibynnu ar anghenion y bobl ar y dydd. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd i ni y byddant yn defnyddio adnodd dibyniaeth o hyn ymlaen er mwyn sicrhau y cynhelir lefelau staffio priodol i fodloni anghenion y bobl.

| Statws | Ystyr pob un |
| --- | --- |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| **Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth** | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |

| | | |
|---|---|---|
| 44 | Mae'r bobl yn wynebu risg o anaf difrifol yn y gwasanaeth pe byddent yn defnyddio'r grisiau. Dylid gosod drysau sy'n defnyddio system bysellbad i fyny'r grisiau er mwyn atal mynediad heb awdurdod i ben y grisiau, a dylid gosod giât fwy cadarn ar y llawr gwaelod. | Newydd |
| 57 | Nid yw pob un o'r materion blaenorol a godwyd ar yr asesiad risg legionella yn y cartref wedi cael eu cwblhau er mwyn lleihau'r risg i'r bobl. Er bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cymryd, mae rhai materion y mae angen i'r darparwr fynd i'r afael â nhw o hyd er mwyn lleihau'r risgiau cymaint ag y bo'n ymarferol bosibl. | Newydd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/08/2024